

❖ **CARDIAU NADOLIG**

Mae symbolau crefyddol wedi bod yn amlwg iawn yn y newyddion yn ddiweddar. Ydy hi'n iawn i wraig o Fwslem roi gorchudd llawn dros ei hwyneb yn y gwaith? Ydy hi'n iawn i wraig o Gristion wisgo croes yn y gwaith? Diolch byth bod Rowan Williams wedi llwyddo i ddarbwylllo British Airways bod gwisgo croes fach yn dderbyniol.

Oni bai am gerdded trwy'r pentre i'r capel, a cherdded i'r dosbarth Beiblaidd ganol yr wythnos, does dim arwydd allanol weladwy arall i ddweud fy mod i'n Gristion. Ond rwyf yn dymuno dangos fy mod yn Gristion ac mae'r Nadolig yn cynnig cyfle. Mae hefyd yn rhoi'r cyfle i mi gefnogi achos da a dangos bod y Gymraeg yn golygu rhywbeth i mi. Felly dewisaf anfon carden Gymraeg ddyngarol.

Nawr rwyf wrth fy modd yn derbyn cardiau Nadolig ac os ydynt yn gardiau Cristnogol, gorau oll. Mae derbyn y garden yn bleser ac mae treulio tipyn bach mwy o amser dros frecwast yn agor a darllen twmpath o gardiau yn rhan o ddatlu'r Nadolig.

Llynedd es ati i ddadansoddi'r math o gardiau Nadolig oedd yn cyrraedd yma. Roeddwn i wedi meddwl y byddai hi'n rhannu'n gyfartal rhwng y cardiau Cristnogol a chardiau seciwlar. A dyna oedd hi, hanner a hanner.

Gan fy mod wedi dechrau ar y dadansoddiad, es ymlaen a'u rhannu'n dri chategori – Cymraeg, dwyieithog a Saesneg. Daeth ychydig mwy o wybodaeth i'r wyneb.

Roedd mwyafrif y cardiau Cymraeg yn Gristnogol a llawer iawn o'r cardiau dwyieithog hefyd. Y gwahaniaeth mwyaf oedd ymysg y cardiau Saesneg. Roedd llawer llai o'r rhain yn Gristnogol. Y syndod oedd bod cymaint o Gymry Cymraeg yn anfon cardiau Saesneg. Y pleser mawr oedd derbyn un garden Gymraeg Gristnogol oddi wrth deulu sy'n byw yn Lloegr.

Fydda i'n gwneud yr un dadansoddiad eleni? Ches i fawr o fudd ysbrydol o edrych ar y dadansoddiad llynedd. Yn wir roedd yna dristwch a siom. Ond beth oeddwn yn ei ddisgwyl? Mae cymaint o bwysau seciwlar arnom ni. Eleni byddaf yn siwr o deimlo'r un tristwch pan dderbyniaf gerdyn seciwlar gan Gristion a siom pan ddaw carden Saesneg gan Gymro.

Mae derbyn cyfarchion yn bleser. Ond fel Cristnogion, onid oes cyfrifoldeb arnom ni i ddangos mai Cristnogion ydym ni? Ac mae'r Nadolig yn adeg dda i wneud hyn. Wedi'r cyfan, dydy'r 'Dyn' ddim wedi dwyn 'y Dolig' eto.

Nia a Meurig Royles